



# Cynnwys

---

<b>Adran 1: Rhagair</b> .....	<b>1</b>
<b>1.1 Cymru Versus Arthritis</b> .....	<b>1</b>
<b>1.2 Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned</b> .....	<b>2</b>
<b>Adran 2: Y Fframwaith</b> .....	<b>3</b>
<b>2.1 Cyflwyniad</b> .....	<b>3</b>
<b>2.2 Diben</b> .....	<b>3</b>
<b>2.3 Cwmpas</b> .....	<b>3</b>
<b>2.4 Cynulleidfa</b> .....	<b>4</b>
<b>2.5 Datblygiad y Fframwaith</b> .....	<b>5</b>
<b>2.6 Cyflawni'r Fframwaith</b> .....	<b>5</b>
<b>Adran 3: Galluoedd</b> .....	<b>6</b>
<b>Adran 4: Templedi</b> .....	<b>28</b>
<b>Adborth Aml-ffynhonnell (MSF)</b> .....	<b>29</b>
<b>Trafodaeth ar sail achos (CBD)</b> .....	<b>31</b>
<b>Adolygiad Myfyriol</b> .....	<b>32</b>
<b>Cyfarfod Goruchwylydd</b> .....	<b>33</b>
<b>Adran 5: Atodiad</b> .....	<b>34</b>
<b>5.1 Atodiad A Grŵp Tasg a Gorffen</b> .....	<b>34</b>
<b>5.2 Atodiad B Dogfennau a adolygwyd wrth ddatblygu galluoedd</b> .....	<b>36</b>
<b>Adran 6: Geirfa</b> .....	<b>38</b>
<b>Adran 7: Cyfeiriadau</b> .....	<b>40</b>

# Adran 1: Rhagair

## 1.1 Cymru Versus Arthritis

Mae arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol (MSK) ar iechyd ein cenedl yn anferth, gyda bron i draean o'n poblogaeth yma yng Nghymru yn byw â chyflwr MSK. I lawer, mae'r cyflwr yn tarfu ar fywyd bob dydd - gan effeithio ar y gallu i weithio, gofalu am deulu, i symud heb boen a byw'n annibynnol. Mae cyflyrau MSK yn gallu peri costau sylweddol i'r unigolyn a'r economi ehangach. Does dim dwywaith bod ein gweithwyr proffesiynol gofal iechyd yn wynebu lluo o heriau yn ein system gofal iechyd anodd, sy'n newid yn gyflym. Mae sicrhau gweithlu amlddisgyblaethol cymwys, hyderus a sgilgar sydd â chyfleoedd datblygu cyson yn allweddol os ydyn ni'n mynd i gefnogi pobl â chyflyrau MSK fyw yn iach, nawr ac yn y dyfodol.

Mae Cymru Versus Arthritis yn falch o weld dyfodiad y Fframwaith hollbwysig hwn sy'n nodi'r weledigaeth, yr uchelgais a'r dulliau sydd eu hangen i gynnig safonau gofal a chymorth o'r radd flaenaf ledled Cymru. Mae sgiliau rhyngbersonol da yn rhan graidd o'r Fframwaith, ac ry'n ni'n gwybod eisoes bod sgiliau cyfathrebu da yn cael effaith positif ar ganlyniadau iechyd.

Yn yr un modd, mae cydweithio a deall yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn allweddol er mwyn cynnig deilliannau sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae cyfathrebu effeithiol a sgiliau rhyngbersonol da yn mynd law yn llaw â gwneud penderfyniadau ar y cyd a grymuso. Gall cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wneud gwahaniaeth sylweddol a galluogi rhywun i fyw bywyd fel y mynnent. Gall hefyd eu hatal rhag colli annibyniaeth yn llwyr.

Diolch i bawb sydd ynghlwm wrth ddatblygu'r fframwaith hwn, ac yn wir, i bob gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol sy'n gweithio ledled Cymru i wella ansawdd bywyd pobl sy'n byw â chyflyrau MSK.

Drwy lwc, bydd y Fframwaith hwn yn galluogi ac yn grymsuo'n gweithlu MSK i anelu at ragoriaeth, a pharhau i wneud gwahaniaeth sydd wir ei angen i fywydau pobl sy'n byw â chyflyrau MSK yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at gydweithio â chi, ar draws sectorau, i helpu i gyflawni nodau'r Fframwaith.

**Mary Cowern**

**Pennaeth Cangen Cymru - Cymru Versus Arthritis**



## 1.2 Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned

Rwy'n falch iawn o weld lansiad y Fframwaith Galluedd Cyhyrysgerbydol Amlbroffesiynol Gofal Sylfaenol, sydd wedi'i ddatblygu ar y cyd gan ymarferwyr cyhyrysgerbydol ar gyfer ymarferwyr cyhyrysgerbydol.

Hoffai'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru weld system gofal yn y gymuned integredig, sy'n rhoi gofal drwy dimau aml-broffesiynol estynedig. Wrth i wasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y boblogaeth gael eu datblygu, bydd arnom angen gweithlu aml-broffesiynol i gynnig gofal cymhleth ac arbenigol yn ein cymunedau. Gan fod 32% o'n dinasyddion yn byw â chyflyrau cyhyrysgerbydol, mae arnom angen timau aml-broffesiynol sydd nid yn unig yn deall eu rôl eu hunain yn cefnogi'r unigolyn, ond rolau ei gilydd hefyd. Mae'r fframwaith hwn yn galluogi dyluniad gwasanaethau i ystyried y sgiliau priodol sydd eu hangen ar dimau i gynnig gofal iechyd o'r radd flaenaf. Bydd yn cefnogi datblygiad llwybrau gyrfa mewn swyddi cyhyrysgerbydol yn y gymuned, gan ysbrydoli ymarferwyr i ddatblygu cwrpas eu hymarfer a chyflawni'r deilliannau gorau i bawb.

Edrychaf ymlaen at weld y fframwaith ar waith. Bydd yn helpu ein timau cyhyrysgerbydol i rymuso dinasyddion i fod yn gyfranogwyr actif yn eu gofal, a darparu mynediad gwell i wasanaethau, yn nes at adref.

### Sue Morgan

Cyfarwyddwr Cenedlaethol ac Arweinydd Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned



## Adran 2: Y Fframwaith

### 2.1 Cyflwyniad

Mae cyflyrau cyhyrsgerberbydol yn effeithio ar oddeutu 32% o boblogaeth Cymru (Versus Arthritis, 2021), a'r cyflyrau hyn sy'n cynrychioli'r mwyaf o flynyddoedd yn byw ag anabledd yng Nghymru (PHW Observatory, 2017). Mae adroddiad y GIG 'Y GIG mewn 10 Mlynedd a Mwy'1 yn disgrifio risg gynyddol salwch, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yn byw gyda rhagor o gyflyrau hirdymor. Mae cyflyrau MSK yn effeithio, ac yn cael eu heffeithio, gan gyflyrau eraill a chyflyrau iechyd meddwl ar yr un pryd. Felly, mae iechyd MSK yn dod yn elfen bwysicach ar allu rhywun i dyfu, byw a heneiddio'n dda.

Mae anghenion iechyd newidiol y boblogaeth yn golygu bod angen trawsnewid darpariaeth gwasanaeth a rolau'r gweithlu. Roedd [Cymru Iachach \(llyw.cymru\)](#) a'r ([Rhaglen Strategol - Gofal Sylfaenol Un \(gig.cymru\)](#)) yn nodi cynlluniau ar gyfer darparu gofal yn nes at adref, gyda mynediad uniongyrchol i'r person cywir ar yr adeg gywir, gan gynnwys datblygiad y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru.

Mewn blynyddoedd diweddar, mae hyn wedi arwain at drawsnewid gwasanaethau MSK mewn gofal sylfaenol, gan olygu bod angen clinigwyr â sgiliau a gwybodaeth briodol i gefnogi unigolion â chyflyrau MSK. Fis Hydref 2023, ryddhaodd Llywodraeth Cymru y [Datganiad ansawdd ar gyfer iechyd cyhyrsgerberbydol | LLYW.CYMRU](#), sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan wasanaethau MSK yng Nghymru, mewn ymateb i Cymru Iachach a'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r fframwaith galluedd hwn.

### 2.2 Diben

Mae'r Fframwaith hwn yn diffinio'r galluedd sydd eu hangen gan glinigwyr â chofrestrïadau proffesiynol i fodloni anghenion iechyd, lles a gofal pobl â chyflyrau MSK mewn lleoliadau gofal sylfaenol nawr, ac i'r dyfodol.

Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn natblygiad gweithlu MSK y dyfodol, ac felly'r gofal a ddarperir gan glinigwyr a gwasanaethau ledled Cymru i bobl â chyflyrau MSK a fydd yn bodloni'r gofynion ansawdd a nodwyd yn y Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Cyhyrsgerberbydol (2023).

Mae gan y fframwaith ddull system GIG gyfan o ran rheoli cleifion â chyflyrau MSK. Bydd yn helpu i ddatblygu clinigwyr sy'n gallu rheoli iechyd pobl â chyflyrau MSK, gyda ffocws ar ofal sy'n canolbwyntio ar y claf, hunan-reoli â chymorth ac atal.

### 2.3 Cwmpas

Darperir gofal MSK gan sawl proffesiwn mewn ystod eang o leoliadau ac ardaloedd, ac mae'r fframwaith hwn yn berthnasol i unrhyw broffesiwn sy'n darparu gofal i bobl â chyflyrau MSK mewn gofal sylfaenol. Efallai y bydd disgwyl i rai clinigwyr ddatblygu a chynnal yr holl alluoedd, tra bod eraill ond angen defnyddio rhai ohonynt, yn dibynnu ar eu rôl a disgrifiad swydd.

Mae gwasanaethau gofal sylfaenol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r gymuned, practis cyffredinol (meddygon teulu), lleoliadau gofal brys ac adrannau cleifion allanol. Mae'r fframwaith yn berthnasol i unrhyw wasanaeth neu rôl sy'n rhan o'r continwmm hwn, a gellid ei ddefnyddio gan glinigwyr sy'n gweithio ar draws sawl rôl a gwasanaeth MSK.

Bydd hyn yn helpu i ddatblygu gweithlu MSK ystwyth a hyblyg. Mae'n cefnogi Strategaeth y Gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol (AaGIC, 2020) ar gyfer gweithio aml-broffesiynol ac aml-asiantaeth a fydd yn darparu modelau gweithlu syml ledled llwybrau MSK. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys darpariaeth gofal mewn lleoliadau is-arbenigol, megis gofal orthopaedig, rhiwmatoleg a gwasanaethau poen cyson.

## 2.4 Cynulleidfa

Dylai'r canlynol ddefnyddio'r fframwaith:

### 🔧 Clinigwyr er mwyn:

- ~ Nodi ac arddangos y sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer y swydd
- ~ Nodi anghenion dysgu unigol a chynllunio gweithgareddau dysgu i'w bodloni, gyda chymorth y cyflogwr lle bo angen
- ~ Cynllunio datblygiad gyrfa
- ~ Datblygu cwmpas eu hymarfer yn y swydd, gyda'r bwriad o weithio hyd eithaf eu gallu a thrwydded
- ~ Cynnal eu DPP yn unol â gofynion proffesiynol.

### 🔧 Darparwyr gwasanaeth er mwyn:

- ~ Arfarnu'r gweithlu MSK a sicrhau eu bod yn meddu ar y cyfuniad priodol o sgiliau a gwybodaeth i ddarparu gwasanaeth MSK sy'n bodloni anghenion MSK presennol y boblogaeth, ac i'r dyfodol, yn unol â'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Iechyd Cyhyrsgerbydol (2023).
- ~ Cytuno ar gwmpas ymarfer ar y cyd â chlinigwyr, a datblygu disgrifiadau swyddi
- ~ Cefnogi clinigwyr MSK i nodi eu hanghenion dysgu
- ~ Cefnogi datblygiad a hyfforddiant ein clinigwyr MSK
- ~ Cynyddu ymwybyddiaeth o rolau ymarferydd MSK yn y gwasanaeth MSK
- ~ Gwella lefelau recriwtio a chadw staff y gweithlu MSK

### 🔧 Darparwyr addysg er mwyn:

- ~ Datblygu addysg a hyfforddiant gyda deilliannau dysgu sy'n benodol i anghenion clinigwyr MSK mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned ledled Cymru.  
Mae hyn yn cynnwys bodloni anghenion iechyd y boblogaeth yn eu gwasanaeth, bwrw ymlaen â'u gyrfaedd a meithrin sgiliau ar gyfer gwelliant parhaus y gwasanaeth drwy arweinyddiaeth, addysg ac addysgu, ymchwil a meddwl yn strategol

### 🔧 Academyddion gofal sylfaenol:

- ~ Darparu cronfa o addysg a hyfforddiant aml-broffesiynol sydd ar gael i gefnogi darpariaeth leol gofal MSK sylfaenol ac yn y gymuned.
- ~ Ymgysylltu â systemau MSK i bennu anghenion hyfforddiant ac addysg.



## 2.5 Datblygiad y Fframwaith

Datblygwyd y fframwaith hwn gan Grŵp Tasg a Gorffen gyda chynrychiolaeth o sawl proffesiwn, gwasanaeth ymddiriedolaeth a phob bwrdd iechyd yng Nghymru (gweler Atodiad A). Ceisiwyd mewnbwn hefyd gan Grŵp Ymgynghorol Cymru ar gyfer Ymarfer Clinigol Uwch (WAGACP), Cydweithrediaeth Arweinyddiaeth Cenedlaethol y Proffesiynau Iechyd Perthynol, Tîm Trawsnewid AHP (AaGIC), GIG Lloegr, Cymdeithas Cyhyrysgerbydol y Ffisiotherapyddion Siartredig.

## 2.6 Cyflawni'r Fframwaith

Mae tystiolaeth o ddysgu a DPP parhaus eisoes yn ddisgwyliedig yn rhan o bractis proffesiynol a chofrestrriad parhaus. Mae'r Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Practis Clinigol Uwch, Estynedig ac Ymgynghorol yng Nghymru hefyd yn nodi bod angen i glinigwyr fod â phortffolio datblygiad personol.

Mae'r fframwaith galluoedd MSK hwn yn adnodd sy'n rhoi arweiniad a strwythur o ran sut ddylai clinigwyr sy'n rhoi gofal i bobl â chyflyrau MSK ddangos tystiolaeth o alluoedd mewn portffolio.

Dylai'r ymarferydd gasglu tystiolaeth, gyda chymorth fel bo angen gan eu harweinydd gwasanaeth, goruchwylydd neu fentor. Gall hyn gynnwys defnyddio cyfraniadau aml-broffesiynol, gan annog dysgu ac addysg rhyng-broffesiynol. Cefnogir y broses o ddangos tystiolaeth o lefel ymarfer gan y [Canllawiau Portffolio ar gyfer Ymarfer Cyffredinol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol yng Nghymru \(gig.cymru\)](#).

Rhaid i'r broses ar gyfer llywodraethu asesiad y galluoedd gael ei datblygu gan gyflogwyr, drwy adolygu portffolios ffurfiol. Mae Byrddau Iechyd yn datblygu "Byrddau Ymarfer Uwch" rhyng-broffesiynol, sy'n gallu cadarnhau bod clinigwr yn gweithio ar lefel ymarfer benodol. Dylai portffolio clinigwr gael ei adolygu yn rhan o ADPP blynyddol yr ymarferydd. Lle bo'n briodol, dylid cyflwyno'r dystiolaeth hon i'r Bwrdd Ymarfer Uwch er mwyn cadarnhau.

Datblygwyd y galluoedd drwy fapio fframweithiau cymhwysedd a galluedd o Gymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol (gweler Atodiad B). Yna, cafodd y galluoedd eu halinio â strategaeth GIG Cymru.

Rhannwyd drafft o'r galluoedd yn genedlaethol er mwyn ymgynghori, cyn i'r ddogfen derfynol hon gael ei chytuno gan grŵp Tasg a Gorffen. Yna, cafodd y ddogfen ei chadarnhau gan Dîm Gweithredol AaGIC.

Ar hyn o bryd, mae AaGIC yn datblygu canllawiau ar gyfer goruchwyliaeth glinigol ac asesu ar gyfer dysgu. Bydd hyn yn cynnwys argymhellion ar ddatblygu sgiliau staff mewn rolau goruchwyliaeth glinigol. Bydd hyn yn helpu i safoni'r broses o ddangos tystiolaeth o allu.

Dylai arweinwyr gwasanaethau gytuno gyda staff sydd eisoes yn gweithio yn y swydd pa amserlenni sy'n briodol er mwyn dangos tystiolaeth o'u galluoedd ar ffurf ôl-weithredol. Argymhellir y dylai hyn fod oddeutu dwy flynedd. Hefyd, dylent bennu dyddiad pan fydd disgwyl i ddeiliad y swydd fodloni'r galluoedd hynny yn rhan o'u cynllun swydd. Bydd cwmpas ymarfer yr ymarferydd yn tyfu wrth iddynt feddu ar ragor o alluoedd.

Ar hyn o bryd, mae AaGIC yn datblygu e-bortffolio, a fydd ar gael ar y platfform digidol, Y Tŷ Dysgu. Defnyddir yr e-bortffolio fel cronfa o dystiolaeth yr ymarferydd o fodloni'r galluoedd gofynnol. Bydd hyn yn helpu i bennu anghenion dysgu a dangos tystiolaeth o allu. Bydd hyn yn cynnwys profformas tystiolaeth safonol. Nes y bydd ar gael, dylid defnyddio'r profformas enghreifftiol yn Adran 4.

Yn y dyfodol, disgwylir y bydd angen ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch i ddatblygu cyrsiau sy'n benodol i'r galluoedd a nodir yn y fframwaith hwn, ac sy'n cynnwys dysgu ar sail gwaith a dull cydweithredol o ran cydnabod lefel ymarfer.

## Adran 3: Galluoedd

Mae'r fframwaith yn cynnwys y pum piler ymarfer (Ffigur 1) ac yn manylu ar y galluoedd sydd eu hangen ar lefelau ymarfer sylfaenol, estynedig, uwch ac ymgynghorol.

Mae'n alinio â'r [Fframwaith Proffesiynol ar gyfer Ymarfer Clinigol Estynedig, Uwch ac Ymgynghorol \(EAC\) yng Nghymru](#) (2023), ac yn ychwanegu ato. Dylid darllen y fframwaith hwnnw ar y cyd â'r ddogfen hon, gan gynnwys y galluoedd sydd eu hangen gan ymarferydd sylfaenol.

Amlygir y gwahaniaethau ar gyfer pob galluedd ar draws y lefelau ymarfer. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth glir i glinigwyr o'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt ar gyfer eu lefel ymarfer, yn ogystal â sut i fwrw ymlaen i lefelau ymarfer uwch, gan gynorthwyo datblygiad staff a gyrfa.

Mae'r fframwaith yn cynnwys y pileri clinigol ar gyfer ymarfer uwch ac ymgynghorol yn unol â fframwaith EAC.


Er mwyn pennu lefelau'r ymarferwyr clinigol a bodloni'r lefel academiaidd sydd ei hangen i ategu eu harbenigedd, cyfeirir at [Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru \(CQFW\) | LLYW. CYMRU](#) yn y fframwaith hwn.

Yn ogystal, gyda chaniatâd yr awduron, mae'r fframwaith hefyd yn cyfeirio at y lefelau o ymarfer a nodir yn y fframwaith EAC.

Bydd defnyddio diffiniad CQFW o lefelau yn rhoi fframwaith cyffredinol cadarn i gefnogi datblygiad dysgwyr, a galluogi'r broses o wahaniaethu rhwng lefelau'r byd academiaidd ac ymarfer sy'n ofynnol ar bob cam o yrfa clinigol ymarferwr a'u cyflawniad academiaidd.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod yr egwyddorion a nodir yn y fframwaith EAC sef:

- ~ Caiff ymarfer estynedig ei gefnogi gan o leiaf addysg lefel 6 (gan gydnabod y bydd gan lawer o ymarferwyr estynedig addysg lefel 7).
- ~ Caiff ymarfer uwch ei gefnogi gan addysg lefel 7.
- ~ Caiff ymarfer ymgynghorol ei gefnogi gan addysg lefel 7 ac addysg ôl-raddedig helaeth. Gall addysg lefel 8 (PhD/Doethuriaeth Broffesiynol) gefnogi'r rôl, ond nid yw'n angenrheidiol ar gyfer penodi. Eithriad i hyn yw penodiadau gwyddonwyr clinigol ymgynghorol yn GIG Cymru.



Ffigur 1. 5 Piler Ymarfer

Mae Tabl 1 yn rhoi trosolwg o'r galluoedd. Mae'r tri cyntaf, dan personol a phroffesiynol, yn eistedd y tu hwnt i'r pum piler ymarfer, ac mae'r galluoedd hyn yn berthnasol i bob un arall. Ym mhob galluedd penodol, bydd clinigwr yn gweithio ar lefel benodol yn gallu cyflawni'r galluedd hwnnw ar gyfer eu lefel nhw yn ogystal â'r lefelau isod.

## Pwyntiau i'w nodi

- ~ Bydd disgwyl i glinigwyr fod yn gyfrifol am bob galluedd, er enghraifft, gwybod pan fo angen arweiniad neu gymorth
- ~ Mae'r galluoedd personol a phroffesiynol ar ben hynny, ac yn berthnasol i bob piler ymarfer
- ~ Mae geiriau mewn print bras yn amlygu'r newidiadau i alluoedd rhwng lefelau ymarfer



# Tabl 1

Cynyddu ehangder a manylder - galluoedd i ymdrin â risg, cymhlethdod ac ansicrwydd

Galluedd		Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol	
<b>Personol a Phroffesiynol</b>	Nabod eich Hun	Bodloni safonau cofrestrriad proffesiynol.  Dysgwr annibynnol.  Cysoni gwybodaeth a sgiliau ymarferol dan oruchwyliaeth ymarferwyr estynedig ac uwch.  Gallu defnyddio a datblygu tystiolaeth.	Sail wybodaeth estynedig, sgiliau gwneud penderfyniadau cymhleth, cymhwysedd a barn glinigol.  Ymreolaeth a barn helaeth dros faes gwaith bychan.  Arfarnu gwybodaeth gymhleth a chyflawn yn feirniadol.  Cychwyn ac Arwain ar dasgau a phrosesau gan gymryd cyfrifoldeb am y gwaith a rolau eraill.  Gallu defnyddio a datblygu tystiolaeth.	Sail wybodaeth arbenigol.  Gallu gwneud penderfyniadau hynod gymhleth a chymhwysedd a barn glinigol.  Ymreolaeth a barn dros faes gwaith sylweddol.  Arfarnu gwybodaeth gymhleth ac anghyflawn yn feirniadol.  Cychwyn ac Arwain ar dasgau a phrosesau cymhleth yn eu maes gwaith eu hunain.  Dylunio a rheoli ymchwil, a nodi cyfleoedd i wella gwasanaeth ac ansawdd.  Cyfrannu at greu strategaeth.	Sail wybodaeth arbenigol.  Gallu gwneud penderfyniadau hynod gymhleth a chymhwysedd a barn glinigol.  Ymreolaeth a barn helaeth.  Arfarnu gwybodaeth gymhleth ac anghyflawn yn feirniadol.  Arwain fel prif ymarferydd ag arbenigedd clinigol a dylanwad.  Arfarnu gwybodaeth gymhleth ac anghyflawn yn arbenigol.  Dylunio ac arwain ymchwil sy'n creu newid sylweddol.  Gosod strategaeth ar y cyd â'r tîm.  Dylanwadu a chreu agendau a strategaeth lleol a chenedlaethol.	
	Nabod yr MDT					
	Cyfathrebu					
<b>Pileri Ymarfer</b>						
<b>Clinigol</b>	<b>Diagnosis cynnar a chywir</b>					Gwybodaeth am MSK
						Gwybodaeth am yr unigolyn
						Casglu Data
						Syntheseiddio Data
	<b>Rheoli</b>					Cynllunio Gofal
						Atal
		Triniaeth				
<b>Arweinyddiaeth a Rheoli</b>		Hunan Eraill Y Tîm				
<b>Ymchwil ac Archwilio</b>		QA/QI Archwilio Ymchwilio				
<b>Addysg</b>		Defnyddwyr Gwasanaeth Hunan Gweithwyr proffesiynol eraill				
<b>Strategaeth</b>		Creu Gweithredu Arfarnu				

### 3.1 Nabod eich hun: Gweithio'n unol â'ch cyfyngiadau eich hun, a'r cod proffesiynol, gan weithio'n agored ac yn onest

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Ymarfer yn unol â'r cod ymddygiad proffesiynol perthnasol ac o fewn terfynau gallu personol, cwmpas ymarfer a'r disgrifiad swydd, gan fod yn gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau, gweithrediadau ac unrhyw beth sydd wedi'i hepgor.	Ymarfer yn unol â'r cod ymddygiad proffesiynol perthnasol ac o fewn terfynau gallu personol, cwmpas ymarfer a'r disgrifiad swydd, gan fod yn gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau, gweithrediadau ac unrhyw beth sydd wedi'i hepgor.	Ymarfer yn unol â'r cod ymddygiad proffesiynol perthnasol ac o fewn terfynau gallu personol, cwmpas ymarfer a'r disgrifiad swydd, gan fod yn gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau, gweithrediadau ac unrhyw beth sydd wedi'i hepgor.	Ymarfer yn unol â'r cod ymddygiad proffesiynol perthnasol ac o fewn terfynau gallu personol, cwmpas ymarfer a'r disgrifiad swydd, gan fod yn gyfrifol ac yn atebol am benderfyniadau, gweithrediadau ac unrhyw beth sydd wedi'i hepgor.
Gweithredu ar farn broffesiynol o ran pryd ddylid ceisio cymorth, gan fyfyrion feirniadol ar eich gwaith eich hun, hunan-ymwybyddiaeth (e.e. credoau, gwerthoedd, tybiaethau) drwy fod yn agored i niwed a chyda deallusrwydd emosiynol cynhwysfawr.	Gweithredu ar farn broffesiynol o ran pryd ddylid ceisio cymorth, gan fyfyrion feirniadol ar eich gwaith eich hun, hunan-ymwybyddiaeth (e.e. credoau, gwerthoedd, tybiaethau) drwy fod yn agored i newid a chyda deallusrwydd emosiynol estynedig.	Gweithredu ar farn broffesiynol o ran pryd ddylid ceisio cymorth, gan fyfyrion feirniadol ar eich gwaith eich hun, hunan-ymwybyddiaeth (e.e. credoau, gwerthoedd, tybiaethau) drwy fod yn agored i newid a chyda deallusrwydd emosiynol arbenigol.	Gweithredu ar farn broffesiynol o ran pryd ddylid ceisio cymorth, gan fyfyrion feirniadol ar eich gwaith eich hun, hunan-ymwybyddiaeth (e.e. credoau, gwerthoedd, tybiaethau) drwy fod yn agored i newid a chyda deallusrwydd emosiynol arbenigol.
Gallu cynllunio, trefnu a blaenoriaethu'ch gwaith eich hun gyda <b>chymorth o bryd i'w gilydd</b> .	Gallu cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith <b>yn annibynnol</b> .	Gallu cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith <b>yn annibynnol</b> .	Gallu cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich gwaith <b>yn annibynnol</b> .
Gallu arwain eich meddwl a'ch gweithredoedd eich hun ar sail ymwybyddiaeth <b>gynhwysfawr</b> o emosiynau eich hunain, ac emosiynau pobl eraill.	Gallu arwain eich meddwl a'ch gweithredoedd eich hun ar sail ymwybyddiaeth <b>estynedig</b> o emosiynau eich hunain ac emosiynau pobl eraill.	Gallu arwain eich meddwl a'ch gweithredoedd eich hun ar sail ymwybyddiaeth <b>arbenigol</b> o emosiynau eich hunain ac emosiynau pobl eraill.	Gallu arwain eich meddwl a'ch gweithredoedd eich hun ar sail ymwybyddiaeth <b>arbenigol</b> o emosiynau eich hunain ac emosiynau eraill.

### 3.2 Nabod yr MDT: Cydweithio â'r tîm aml-broffesiynol, gan gynrychioli eich proffesiwn eich hun tra'n grymuso pobl eraill

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
<b>Cyfrannu</b> at weithio aml-broffesiynol ar <b>lefel tîm</b> , gan ddangos parch, dealltwriaeth a'r gallu i fanteisio ar arbenigedd pobl eraill i wella deilliannau.	<b>Cyfrannu ar lefel gwasanaeth ac yn arwain gweithio</b> aml-broffesiynol ar <b>lefel tîm</b> , gan ddangos parch, dealltwriaeth a'r gallu i fanteisio ar arbenigedd pobl eraill i wella deilliannau.	<b>Arwain</b> gweithio aml-broffesiwn ar <b>lefel gwasanaeth</b> , gan ddangos parch, dealltwriaeth a'r gallu i fanteisio ar arbenigedd pobl eraill i wella deilliannau.	<b>Arwain</b> gweithio aml-broffesiynol ar <b>lefel strategol</b> , gan ddangos parch, dealltwriaeth a'r gallu i fanteisio ar arbenigedd pobl eraill i wella deilliannau.
<b>Deall eich rôl eich hun yn y tîm lleol</b> , a gwybodaeth am rolau MDT ar draws llwybrau MSK.	<b>Deall eich rôl eich hun yn y gwasanaeth, a gwybodaeth estynedig</b> am rolau MDT ar draws llwybrau MSK.	<b>Deall eich rôl eich hun ar draws sefydliadau, a gwybodaeth arbenigol</b> am rolau MDT ar draws llwybrau MSK.	<b>Deall eich rôl eich hun ar draws sefydliadau, a gwybodaeth arbenigol</b> am rolau MDT ar draws llwybrau MSK.
<b>Gwybodaeth</b> am sefydliadau ac asiantaethau ledled sectorau sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl â chyflyrau MSK, yn ogystal â chyflyrau tebyg a phenderfynwyr ehangach iechyd a lles.	<b>Gwybodaeth estynedig</b> am wasanaethau, sefydliadau ac asiantaethau ledled sectorau sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl â chyflyrau MSK, yn ogystal â chyflyrau tebyg a phenderfynwyr ehangach iechyd a lles.	<b>Gwybodaeth arbenigol</b> am wasanaethau, sefydliadau ac asiantaethau ledled sectorau sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl â chyflyrau MSK, yn ogystal â chyflyrau tebyg a phenderfynwyr ehangach iechyd a lles.	<b>Gwybodaeth arbenigol</b> am wasanaethau, sefydliadau ac asiantaethau ledled sectorau sy'n rhoi gofal a chymorth i bobl â chyflyrau MSK, yn ogystal â chyflyrau tebyg a phenderfynwyr ehangach iechyd a lles.
<b>Rhannu gwybodaeth a sgiliau</b> am y proffesiwn â MDT, hyrwyddo dealltwriaeth o ddarpariaeth MSK <b>ar lefel tîm</b> .	<b>Rhannu gwybodaeth a sgiliau</b> am y proffesiwn â MDT, hyrwyddo dealltwriaeth o ddarpariaeth MSK <b>ar lefel gwasanaeth</b> .	<b>Rhannu gwybodaeth a sgiliau</b> am y proffesiwn â MDT, hyrwyddo dealltwriaeth o ddarpariaeth MSK <b>ar lefel gwasanaeth</b> .	<b>Rhannu gwybodaeth a sgiliau</b> am y proffesiwn â MDT, hyrwyddo dealltwriaeth o ddarpariaeth MSK <b>ar lefel system</b> .
<b>Cyfrannu</b> at ddiwylliant o weithio mewn partneriaeth ar draws yr MDT, rheoli gwahaniaethau a gwrthdaro <b>gyda chymorth</b> .	<b>Cyfrannu</b> at ddiwylliant o weithio mewn partneriaeth, a'i hyrwyddo, ar draws yr MDT, rheoli gwahaniaethau a gwrthdaro <b>gyda chymorth</b> .	<b>Datblygu a hyrwyddo</b> diwylliant o weithio mewn partneriaeth, a'i hyrwyddo, ar draws yr MDT, rheoli gwahaniaethau a gwrthdaro.	<b>Datblygu ac ysbrydoli</b> diwylliant o weithio mewn partneriaeth ar draws asiantaethau a sefydliadau, rheoli gwahaniaethau a gwrthdaro.
Gallu ceisio cymorth gan yr MDT pan nad yw'r sefyllfa o fewn cwmpas ymarfer.	Gallu ceisio cymorth gan yr MDT pan nad yw'r sefyllfa o fewn cwmpas ymarfer.	Gallu ceisio cymorth gan yr MDT pan nad yw'r sefyllfa o fewn cwmpas ymarfer.	Gallu ceisio cymorth gan yr MDT pan nad yw'r sefyllfa o fewn cwmpas ymarfer.

### 3.3 Cyfathrebu: arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a'r MDT

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Arddangos <b>ystod</b> o sgiliau cyfathrebu effeithiol (ar lafar a fel arall), ac <b>yn gallu addasu'r</b> rhain i ennill a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon, mynd i'r afael â phryderon a chredoau, cefnogi a grymuso pobl i wneud penderfyniadau, cynllunio a rhoi gofal.	Arddangos lefel <b>estynedig</b> o sgiliau cyfathrebu effeithiol (ar lafar a fel arall), ac <b>yn gallu addasu'r</b> rhain mewn sefyllfaoedd gan gynnwys anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cymhleth, er mwyn ennill a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon, mynd i'r afael â phryderon a chredoau, cefnogi a grymuso pobl i wneud penderfyniadau, cynllunio a rhoi gofal.	Arddangos lefel <b>arbenigol</b> o sgiliau cyfathrebu effeithiol (ar lafar a fel arall), ac <b>yn gallu addasu'r</b> rhain mewn sefyllfaoedd gan <b>gynnwys anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cymhleth</b> , er mwyn ennill a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon, mynd i'r afael â phryderon a chredoau, cefnogi a grymuso pobl i wneud penderfyniadau, cynllunio a rhoi gofal.	Arddangos lefel <b>arbenigol</b> o sgiliau cyfathrebu effeithiol (ar lafar a fel arall), ac <b>yn gallu addasu'r</b> rhain mewn sefyllfaoedd gan <b>gynnwys anghenion cyfathrebu a gwybodaeth cymhleth</b> , er mwyn ennill a rhannu gwybodaeth berthnasol ac ystyrlon, mynd i'r afael â phryderon a chredoau, cefnogi a grymuso pobl i wneud penderfyniadau, cynllunio a rhoi gofal.
<b>Trafod</b> gwybodaeth berthnasol â chydweithiwr neu wasanaeth priodol <b>gyda chymorth achlysurol</b> .	<b>Trafod</b> gwybodaeth berthnasol â <b>chydweithiwr</b> neu wasanaeth priodol <b>mewn ffordd gryno a systematig gyda chymorth achlysurol</b> mewn sefyllfaoedd cymhleth.	<b>Trafod</b> gwybodaeth berthnasol â <b>chydweithiwr</b> neu wasanaeth priodol <b>mewn ffordd gryno a systematig</b> mewn sefyllfaoedd hynod gymhleth.	<b>Trafod</b> gwybodaeth berthnasol â <b>chydweithiwr</b> neu wasanaeth priodol <b>mewn ffordd gryno a systematig</b> mewn sefyllfaoedd hynod gymhleth.

### 3.4 Gwybodaeth am systemau cyhyrsgerbydol

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
<b>Gwybodaeth gynhwysfawr</b> am ffurf a swyddogaeth y system MSK o ran symudiad a gweithgarwch.	<b>Gwybodaeth estynedig</b> am ffurf a swyddogaeth y system MSK o ran symudiad a gweithgarwch.	<b>Gwybodaeth arbenigol</b> am ffurf a swyddogaeth y system MSK o ran symudiad a gweithgarwch.	<b>Gwybodaeth arbenigol</b> am ffurf a swyddogaeth y system MSK o ran symudiad a gweithgarwch.
<b>Gwybodaeth gynhwysfawr</b> am gyflyrau ac ymrithwyr <b>MSK cyffredin</b> .	<b>Gwybodaeth estynedig</b> am rai o gyflyrau ac ymrithwyr <b>MSK cyffredin a phrin</b> .	<b>Gwybodaeth arbenigol</b> am gyflyrau ac ymrithwyr <b>MSK</b> .	<b>Gwybodaeth arbenigol</b> am gyflyrau ac ymrithwyr <b>MSK</b> .

### 3.4 Gwybodaeth am systemau cyhyrysgerbydol (parhad)

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Gwybodaeth gynhwysfawr am gyd-forbidrwydd a phenderfynwyr iechyd ehangach, sut maen nhw'n effeithio ar faterion MSK, a'u perthnasedd i sefyllfa'r unigolyn.	Gwybodaeth estynedig am gyd-forbidrwydd a phenderfynwyr iechyd ehangach, sut maen nhw'n effeithio ar faterion MSK, a'u perthnasedd i sefyllfa'r unigolyn.	Gwybodaeth arbenigol am gyd-forbidrwydd a phenderfynwyr iechyd ehangach, sut maen nhw'n effeithio ar faterion MSK, a'u perthnasedd i sefyllfa'r unigolyn.	Gwybodaeth arbenigol am gyd-forbidrwydd a phenderfynwyr iechyd ehangach, sut maen nhw'n effeithio ar faterion MSK, a'u perthnasedd i sefyllfa'r unigolyn.

### 3.5 Nabod yr Unigolyn: gweithio ar y cyd ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i nodi beth sy'n bwysig i'r unigolyn, ei gryfderau a'i rwystrau

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i ddeall yr unigolyn a chreu perthynas therapiwtig.	Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i ddeall yr unigolyn a chreu perthynas therapiwtig mewn <b>sefyllfaoedd cymhleth</b> .	Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i ddeall yr unigolyn a chreu perthynas therapiwtig mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b> .	Gweithio mewn partneriaeth ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i ddeall yr unigolyn a chreu perthynas therapiwtig mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b> .
Nodi a gweithredu ar werthoedd, cryfderau, targedau, amgylchiadau a dewisiadau unigolion mewn <b>sefyllfaoedd syml</b> (e.e. cyfathrebu, llythrennedd iechyd, lefelau gweithgarwch) mewn <b>sefyllfaoedd syml</b> gyda chymorth o bryd i'w gilydd.	Nodi a gweithredu ar werthoedd, cryfderau, targedau, amgylchiadau a dewisiadau ac anghenion unigolion mewn <b>sefyllfaoedd cymhleth</b> (e.e. cyfathrebu, llythrennedd iechyd, lefelau gweithgarwch).	Nodi a gweithredu ar werthoedd, cryfderau, targedau, amgylchiadau a dewisiadau ac anghenion unigolion mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b> (e.e. cyfathrebu, llythrennedd iechyd, lefelau gweithgarwch).	Nodi a gweithredu ar werthoedd, cryfderau, targedau, amgylchiadau a dewisiadau ac anghenion unigolion mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b> (e.e. cyfathrebu, llythrennedd iechyd, lefelau gweithgarwch).

### 3.5 Nabod yr Unigolyn: gweithio ar y cyd ag unigolion, teuluoedd a gofalwyr i nodi beth sy'n bwysig i'r unigolyn, ei gryfderau a'i rwystrau (parhad)

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Nodi a gweithredu ar effaith cyflwr MSK ynghylch beth sy'n bwysig i'r unigolyn, gan ddefnyddio dull bioseicogymdeithasol mewn <b>sefyllfaoedd syml gyda chymorth o bryd i'w gilydd.</b>	Nodi a gweithredu ar effaith cyflwr MSK ynghylch beth sy'n bwysig i'r unigolyn, gan ddefnyddio dull bioseicogymdeithasol mewn <b>sefyllfaoedd cymhleth.</b>	Nodi a gweithredu ar effaith cyflwr MSK ynghylch beth sy'n bwysig i'r unigolyn, gan ddefnyddio dull bioseicogymdeithasol mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth.</b>	Nodi a gweithredu ar effaith cyflwr MSK ynghylch beth sy'n bwysig i'r unigolyn, gan ddefnyddio dull bioseicogymdeithasol mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth.</b>

### 3.6 Casglu data: o amrywiaeth o ffynonellau i fodloni anghenion yr unigolyn

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Casglu gwybodaeth o <b>amrywiaeth o ffynonellau</b> (e.e. yr unigolyn, cofnodion iechyd, dogfennaeth).	Casglu gwybodaeth o <b>amrywiaeth o ffynonellau</b> (e.e. yr unigolyn, cofnodion iechyd, dogfennaeth) mewn <b>ffordd strwythuredig ac effeithlon.</b>	Casglu gwybodaeth o <b>amrywiaeth helaeth o ffynonellau</b> (e.e. yr unigolyn, cofnodion iechyd, dogfennaeth) mewn <b>ffordd strwythuredig ac effeithlon.</b>	Casglu gwybodaeth o <b>amrywiaeth helaeth o ffynonellau</b> (e.e. yr unigolyn, cofnodion iechyd, dogfennaeth) mewn <b>ffordd strwythuredig ac effeithlon.</b>
Casglu <b>hanes priodol</b> , gan gynnwys y gŵyn wreiddiol a'i heffaith ar yr unigolyn, cyd-forbidrwydd, iechyd meddwl a phenderfynwyr ehangach iechyd, mewn <b>sefyllfaoedd syml</b> gyda chymorth o bryd i'w gilydd.	Casglu <b>hanes priodol</b> , gan gynnwys y gŵyn wreiddiol a'i heffaith ar yr unigolyn, cyd-forbidrwydd, iechyd meddwl a phenderfynwyr ehangach iechyd mewn <b>sefyllfaoedd cymhleth.</b>	Casglu <b>hanes priodol</b> , gan gynnwys y gŵyn wreiddiol a'i heffaith ar yr unigolyn, cyd-forbidrwydd, iechyd meddwl a phenderfynwyr ehangach iechyd mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth.</b>	Casglu <b>hanes priodol</b> , gan gynnwys y gŵyn wreiddiol a'i heffaith ar yr unigolyn, cyd-forbidrwydd, iechyd meddwl a phenderfynwyr ehangach iechyd mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth.</b>
Gallu defnyddio adnoddau categoreiddio risg yn briodol.	Gallu defnyddio adnoddau categoreiddio risg yn briodol.	Gallu cydnabod ac addasu dulliau casglu data lle bo gwybodaeth yn <b>anghyflawn neu'n gwrthddweud ei hun.</b>	Gallu cydnabod ac addasu dulliau casglu data lle bo gwybodaeth yn <b>anghyflawn neu'n gwrthddweud ei hun.</b>

### 3.6 Casglu data: o amrywiaeth o ffynonellau i fodloni anghenion yr unigolyn (parhad)

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Gallu cynllunio a gweithredu asesiad gwrthrychol mewn <b>sefyllfaoedd syml</b> gan ddefnyddio sgiliau rhesymegu <b>cynhwysfawr</b> a sgiliau clinigol, gyda defnydd priodol o gasglu data ac adnoddau categoreiddio risgiau.	Gallu cynllunio a gweithredu asesiad perthnasol a gwrthrychol mewn <b>sefyllfaoedd cymhleth</b> , gan ddefnyddio rhesymegu clinigol <b>estynedig</b> ac ystod o sgiliau clinigol, <b>addasu ymarfer</b> , gyda defnydd priodol o gasglu data ac adnoddau categoreiddio risgiau.	Gallu defnyddio adnoddau categoreiddio risg yn briodol.	Gallu defnyddio adnoddau categoreiddio risg yn briodol.
Gallu cynnal sesiynau sgrinio patholeg fflagiau coch ac ar wahân i MSK gyda chymorth o bryd i'w gilydd.  <b>Dealltwriaeth gynhwysfawr o archwiliadau a ddefnyddir</b> yn aml gyda chyflyrau MSK, a'u defnydd priodol, wedi'u halinio â llwybrau lleol a chenedlaethol.	Gallu cynnal sesiynau sgrinio patholeg fflagiau coch ac ar wahân i MSK gyda chymorth o bryd i'w gilydd.  <b>Dealltwriaeth estynedig o archwiliadau a ddefnyddir</b> yn aml gyda chyflyrau MSK, a'u defnydd priodol, wedi'u halinio â llwybrau lleol a chenedlaethol.	Gallu cynllunio a gweithredu asesiadau perthnasol a gwrthrychol mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b> , gan ddefnyddio rhesymegu clinigol <b>arbenigol</b> ac ystod o sgiliau clinigol, <b>addasu ymarfer</b> , gyda defnydd priodol o gasglu data ac adnoddau categoreiddio risgiau.	Gallu cynllunio a gweithredu asesiadau perthnasol a gwrthrychol mewn <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b> , gan ddefnyddio rhesymegu clinigol <b>arbenigol</b> ac ystod o sgiliau clinigol, <b>addasu ymarfer</b> , gyda defnydd priodol o gasglu data ac adnoddau categoreiddio risgiau.

### 3.7 Syntheseiddio data a rhoi diagnosis: Defnyddio sgiliau rhesymegu clinigol i syntheseiddio gwybodaeth o sawl ffynhonnell a dod i gasgliad priodol

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Gallu defnyddio sgiliau rhesymegu clinigol <b>cynhwysfawr</b> i ddatblygu diagnosis, gan <b>ddefnyddio gwybodaeth</b> gyflawn gan yr unigolyn, cysylltu'r wybodaeth sail dystiolaeth a chyd-destun yr unigolyn.	Gallu defnyddio sgiliau rhesymegu clinigol <b>estynedig</b> i ddatblygu diagnosis, gan <b>ddefnyddio gwybodaeth</b> gyflawn gan yr unigolyn, cysylltu'r wybodaeth sail dystiolaeth a chyd-destun yr unigolyn.	Gallu defnyddio <b>lefel arbenigol</b> o sgiliau rhesymegu clinigol i ddatblygu sawl diagnosis <b>hynod gymhleth</b> . Gallu gwneud hynny gan <b>ddefnyddio gwybodaeth gyflawn ac anghyflawn</b> , cysylltu <b>gwybodaeth arbenigol</b> o'r sail dystiolaeth sydd ar gael, a gallu cymhwyso hyn i gyd-destun yr unigolyn.	Gallu defnyddio <b>lefel arbenigol</b> o sgiliau rhesymegu clinigol i ddatblygu sawl diagnosis <b>hynod gymhleth</b> . Gallu gwneud hynny gan <b>ddefnyddio gwybodaeth gyflawn ac anghyflawn</b> , cysylltu gwybodaeth <b>arbenigol</b> o'r sail dystiolaeth sydd ar gael, a gallu cymhwyso hyn i gyd-destun yr unigolyn.
Cyfathrebu mewn modd tosturiol am y <b>diagnosis / argraff</b> clinigol gyda'r <b>lefel briodol o sicrwydd</b> mewn ffordd y gall yr unigolyn ei deall a'i gweithredu.	Cyfathrebu mewn modd tosturiol am y <b>diagnosis / argraff</b> clinigol cymhleth gyda'r <b>lefel briodol o sicrwydd</b> mewn ffordd y gall yr unigolyn ei deall a'i gweithredu.	Cyfathrebu mewn modd tosturiol am y <b>diagnosis / argraff</b> clinigol <b>hynod gymhleth</b> gyda'r <b>lefel briodol o sicrwydd</b> mewn ffordd y gall yr unigolyn ei deall a'i gweithredu.	Cyfathrebu mewn modd tosturiol am y <b>diagnosis / argraff</b> clinigol <b>hynod gymhleth</b> gyda'r <b>lefel briodol o sicrwydd</b> mewn ffordd y gall yr unigolyn ei deall a'i gweithredu.
<b>Gallu nodi a thrafod</b> ansicrwydd diagnostig neu nodweddion sy'n peri pryder, yn briodol brydlon, gyda chydweithwyr priodol.	<b>Gallu nodi a rheoli</b> ansicrwydd diagnostig neu nodweddion sy'n peri pryder, yn briodol brydlon, weithiau yn unol â llwybrau lleol, a nodi pan fo angen trafod ag uwch aelod o staff.	<b>Yn gyfforddus yn rheoli</b> ansicrwydd diagnostig neu nodweddion sy'n peri pryder, yn briodol brydlon, yn unol â llwybrau lleol.	<b>Yn gyfforddus yn rheoli</b> ansicrwydd diagnostig neu nodweddion sy'n peri pryder, yn briodol brydlon, yn unol â llwybrau lleol.

### 3.8 Cynllunio gofal: Cyd-greu cynllun gofal, drwy wneud penderfyniadau a rennir, sydd wedi'i alinio â llwybrau gofal lleol, sy'n bodloni anghenion, dymuniadau a gwerthoedd yr unigolyn

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
<p>Ceisio helpu unigolion i ddeall eu cyflwr MSK yn well, opsiynau triniaeth, a ffyrdd i leihau effaith eu cyflwr ar eu bywyd, gyda <b>chymorth o bryd i'w gilydd</b>.</p>	<p>Ceisio helpu unigolion i ddeall eu cyflwr MSK yn well, opsiynau triniaeth, a ffyrdd o leihau effaith eu cyflwr ar agweddau ehangach ar eu bywyd ar gyfer <b>sefyllfaoedd cymhleth</b>.</p>	<p>Ceisio helpu unigolion i ddeall eu cyflwr MSK yn well, opsiynau triniaeth, a ffyrdd o leihau effaith eu cyflwr ar agweddau ehangach ar eu bywyd ar gyfer <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b>.</p>	<p>Ceisio helpu unigolion i ddeall eu cyflwr MSK yn well, opsiynau triniaeth, a ffyrdd o leihau effaith eu cyflwr ar agweddau ehangach ar eu bywyd ar gyfer <b>sefyllfaoedd hynod gymhleth</b>.</p>
<p>Gan ddefnyddio rhesymegu clinigol <b>cynhwysfawr</b>, cyd-greu cynllun gofal cydweithredol gydag unigolion a'u rhwydweithiau cymorth er mwyn hunan-rheoli, triniaeth gefnogol ac ymyriadau ar gyfer <b>sefyllfaoedd syml</b>, gan gymhwyso gwybodaeth <b>gynhwysfawr</b> o ganllawiau cyfredol ac arfer gorau, wedi'u halinio â llwybrau gofal lleol, gan ystyried adnoddau lleol ar draws sefydliadau a sectorau sy'n bodloni anghenion, dymuniadau a gwerthoedd yr unigolyn, gyda defnydd priodol o adnoddau penderfynu. Bydd angen cymorth o bryd i'w gilydd i wneud hyn.</p>	<p>Gan ddefnyddio rhesymegu clinigol estynedig, cyd-greu cynllun gofal cydweithredol gydag unigolion a'u rhwydweithiau cymorth er mwyn hunan-rheoli, triniaeth gefnogol ac ymyriadau ar gyfer <b>sefyllfaoedd cymhleth</b>, gan gymhwyso gwybodaeth <b>estynedig</b> o ganllawiau cyfredol ac arfer gorau, wedi'u halinio â llwybrau gofal lleol, gan ystyried adnoddau lleol ar draws sefydliadau a sectorau sy'n bodloni anghenion, dymuniadau a gwerthoedd yr unigolyn, gyda defnydd priodol o adnoddau penderfynu. Bydd angen cymorth o bryd i'w gilydd i wneud hyn.</p>	<p>Gan ddefnyddio rhesymegu clinigol <b>arbenigol</b>, cyd-greu cynllun gofal cydweithredol gydag unigolion a'u rhwydweithiau cymorth er mwyn hunan-rheoli, triniaeth gefnogol ac ymyriadau ar gyfer <b>sefyllfaoedd cymhleth</b>, gan gymhwyso gwybodaeth <b>arbenigol</b> o ganllawiau ac arfer gorau cyfredol, wedi'u halinio â llwybrau gofal lleol, gan ystyried adnoddau lleol ar draws sefydliadau a sectorau sy'n bodloni anghenion, dymuniadau a gwerthoedd yr unigolyn, gyda defnydd priodol o adnoddau penderfynu.</p>	<p>Gan ddefnyddio rhesymegu clinigol <b>arbenigol</b>, cyd-greu cynllun gofal cydweithredol gydag unigolion a'u rhwydweithiau cymorth er mwyn hunan-rheoli, triniaeth gefnogol ac ymyriadau ar gyfer <b>sefyllfaoedd cymhleth</b>, gan gymhwyso gwybodaeth <b>arbenigol</b> o ganllawiau ac arfer gorau cyfredol, wedi'u halinio â llwybrau gofal lleol, gan ystyried adnoddau lleol ar draws sefydliadau a sectorau sy'n bodloni anghenion, dymuniadau a gwerthoedd yr unigolyn, gyda defnydd priodol o adnoddau penderfynu.</p>

### 3.8 Cynllunio gofal: Cyd-greu cynllun gofal, drwy wneud penderfyniadau a rennir, sydd wedi'i alinio â llwybrau gofal lleol, sy'n bodloni anghenion, dymuniadau a gwerthoedd yr unigolyn. (parhad)

Sylfaen	Estynedig	Uwch	Ymgynghorol
Nodi a gweithredu strategaethau i rymuso unigolion a manteisio i'r eithaf ar eu cydweithrediad, eu gallu i hunan-reoli a gwydnwch, gyda chymorth o bryd i'w gilydd.	Nodi a gweithredu strategaethau i rymuso unigolion a chynyddu eu cydweithrediad, eu gallu i hunan-reoli a gwydnwch mewn <b>sefyllfaoedd cymhleth</b> .	Nodi a gweithredu strategaethau i rymuso unigolion a chynyddu eu cydweithrediad, eu gallu i hunan-reoli a gwydnwch mewn sefyllfaoedd <b>hynod gymhleth</b> .	Nodi a gweithredu strategaethau i rymuso unigolion a chynyddu eu cydweithrediad, eu gallu i hunan-reoli a gwydnwch mewn sefyllfaoedd <b>hynod gymhleth</b> .
Cymryd rhan mewn cynllunio gofal mewn tîm aml-broffesiynol.	<b>Arwain ar</b> y gwaith o gynllunio gofal <b>cymhleth</b> mewn tîm aml-broffesiynol.	<b>Arwain ar</b> y gwaith o gynllunio gofal <b>hynod gymhleth</b> mewn tîm aml-broffesiynol.	<b>Arwain ar</b> y gwaith o gynllunio gofal <b>hynod gymhleth</b> mewn tîm aml-broffesiynol.
Creu cynllun dilyniant y cytunwyd arno, gan gynnwys cynllun wrth gefn priodol, gyda chymorth o <b>bryd i'w gilydd</b> .	Creu cynllun dilyniant y cytunwyd arno, gan gynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer <b>sefyllfaoedd cymhleth</b> .	Creu cynllun dilyniant y cytunwyd arno, gan gynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd <b>hynod gymhleth</b> .	Creu cynllun dilyniant y cytunwyd arno, gan gynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd <b>hynod gymhleth</b> .
